**LLYFRGELL AC ADNODDAU DYSGU: RHODDION**

***Cytundeb ar gyfer rhoddi deunydd***

**Hoffwn roddi deunydd i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant:**
*(darperwch ddisgrifiad ac atodwch restr ar wahân os bydd angen)*

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

**Enw'r Rhoddwr:** ____________________________________________________

Os ydych yn rhoddi ar ran rhywun arall, rhowch ei (h)enw os gwelwch yn dda:

__________________________________________________________________

**Manylion Cyswllt** *(cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post):*

__________________________________________________________________

__________________________________________________________________

*Rhowch dic fel y bo'n addas:*

Byddwn yn hapus i gael **cofnod yng nghatalog y llyfrgell**, sy'n rhoi fy enw i / yr enw uchod fel y rhoddwr _____

Byddwn yn hapus i gael **plât llyfr** yn rhan flaen y gyfrol, sy'n rhoi fy enw i / yr enw uchod fel y rhoddwr __________

Cytunaf â'r amodau a roddir drosodd, a chadarnhaf mai fi yw perchennog y deunydd a roddir.

Llofnodwyd gan ______________________________________ Dyddiad _______________

Derbyniwyd ar ran y Brifysgol

Llofnodwyd gan_______________________________________ Dyddiad _______________

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

# LLYFRGELL AC ADNODDAU DYSGU
# RHODDION: TELERAU AC AMODAU

Diolch am gynnig eich rhodd i Lyfrgell ac Adnoddau Dysgu Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Mae'r Llyfrgell yn ddiolchgar am bob cynnig o rodd, ond oherwydd y pwysau o ran prinder lle ac amser prosesu, rhaid mynnu ar yr amodau canlynol:

1. Dylai'r rhoddion fod yn berthnasol i ofynion addysgu ac ymchwil y Brifysgol, neu dylent gyflenwi casgliadau arbennig sydd eisoes yn bodoli.
2. Dylai'r eitemau fod mewn cyflwr rhesymol, er mwyn bod darllenwyr yn gallu eu defnyddio. Gellid gwneud eithriad os ydy'r eitemau yn arbennig o brin neu yn werthfawr.
3. Eiddo'r Brifysgol bydd unrhyw eitem a roddir i'r Llyfrgell, a chedwir yr hawl i gael gwared ohonynt, eu cynnig ar werth neu eu rhoi i sefydliadau elusennol, fel y mae'r Llyfrgell yn gweld orau.
4. Ni all y Llyfrgell dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw brisio'r rhoddion a allai ddilyn gwneud rhodd.
5. Cedwir gan y Llyfrgell yr hawl i gadw deunydd ar y safle neu mewn casgliad sydd, ym marn y Llyfrgell, y lle mwyaf priodol ar ei gyfer. Ni fydd hi'n bosib, fel arfer, i gadw eitemau a roddir gyda'i gilydd fel casgliad ar wahân.
6. Dylid trafod rhoddion mawr o flaen llaw gyda'r Llyfrgellydd Derbyniadau a Thanysgrifiadau, a darparu rhestr o gynnwys y casgliad er mwyn cael cyfle i ymgynghori cyn gwneud y rhodd.
7. Rhaid i roddwyr sydd am i'r Llyfrgell dderbyn eu rhoddion o dan amodau arbennig gytuno ar y rhain o flaen llaw gyda'r Llyfrgellydd Derbyniadau a Thanysgrifiadau.
8. Derbynnir llyfrau dyblyg o stoc sydd eisoes gan y Llyfrgell dim ond os ystyrir copïau ychwanegol yn ddefnyddiol.
9. Rhaid caniatáu i'r Llyfrgell osod ei blaenoriaethau prosesu deunydd ei hun, ac ni fydd hi'n bosib iddi warantu prosesu rhoddion heb ystyried y blaenoriaethau hyn.
10. Hoffai'r Llyfrgell gydnabod rhoddion drwy roi plât llyfr o fewn y gyfrol a chofnod yn y catalog, os ydy hyn yn dderbyniol i'r rhoddwr. Dylai rhoddwyr gadarnhau o flaen llaw os nad ydynt am gael eu cydnabod fel hyn.

Sylwer: Mae'n bosib caiff rhoddion eu gwrthod os:

- ydynt yn hen argraffiadau o werslyfrau, neu rai sydd wedi'u disodli
- ydynt yn gopïau dyblyg o gyfnodolion sydd gan y Llyfrgell yn barod.
- ydy'r cyfnodolion yn rhan o gyfresi anghyflawn o deitlau nad ydynt mewn stoc.
- nad yw'r deunydd pwnc yn berthnasol i gwricwlwm cyfredol y Brifysgol.
- ydy'r eitemau mewn cyflwr ffisegol gwael:
    - mae'r tudalennau yn dangos arwyddion o leithder, llwydni neu sbotiau
    - mae'r clawr yn rhydd neu wedi'i ddifrod
    - mae tudalennau yn rhydd, wedi'u difrod neu ar goll
    - ceir yn y testun nodiadau mewn llawysgrifen neu unrhyw danlinellu
    - ceir ynddynt farciau ymwthiol y perchennog
    - maent yn dod o lyfrgell arall, a cheir ynddynt stampiau'r perchennog.